Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Plenydd

**Y Ffôr**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 6UP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Plenydd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Plenydd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 87 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 66 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 13 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 4.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 13.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 84.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Ionawr 1995 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 03/02/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 15/05/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion addysgol arbennig’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Bro Plenydd yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy'n dathlu Cymreictod, cwrteisi a pharch a chyflawniad disgyblion yn arbennig o dda. Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad clir a doeth ac yn parchu ymdrechion pawb sy'n cyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion. Mae'r holl staff yn ymrwymo i sicrhau ansawdd uchel o ofal a lles disgyblion ar draws yr ysgol, mewn awyrgylch dysgu cartrefol a chefnogol. Mae hyn yn dylanwadu'n gryf ar agweddau'r disgyblion tuag at ei gilydd ac at bobl eraill o fewn a thu hwnt i'r ysgol. Mae'r staff dysgu a chymorth yn modelu iaith yn fedrus iawn, sy'n cael effaith ar fedrau llafar y disgyblion.

Mae defnydd a balchder y disgyblion o ran y Gymraeg yn nodwedd gref ac maent yn defnyddio'r iaith yn gwbl naturiol tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn cynllunio ystod o brofiadau dysgu a chwarae ysgogol ac amrywiol i'r disgyblion. O ganlyniad, mae balchder y disgyblion o'u hardal leol yn amlwg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoedrannau a'u mannau cychwyn yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar a darllen Cymraeg yn fedrus, gan gyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth a mynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Er hyn, nid yw medrau darllen Saesneg lleiafrif y disgyblion wedi datblygu'n llawn, yn enwedig eu gallu i ddarllen ar goedd a thrafod testun a llyfrau'n hyderus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn fwriadus. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da dros amser yn erbyn eu targedau a'u cyraeddiadau blaenorol.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn drwyadl. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth a'r staff yn dda iawn. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu, gan ddarparu cydbwysedd priodol o gymorth a her.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth y staff a'r llywodraethwyr, yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu mewn ffordd hynod effeithiol a chefnogol. O ganlyniad, mae disgyblion Ysgol Bro Plenydd yn hapus a diogel yn yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion

A2 Sicrhau bod yr addysgu yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu yn fwy annibynnol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol sy’n unol â’r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini sydd wedi eu hadnabod fel disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn ym mron pob agwedd o’u dysgu.

Mae llafaredd Cymraeg bron pob disgybl yn gyfoethog iawn ar draws yr ysgol. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn trafod eu tasgau a mynegi eu teimladau a’u syniadau’n fyrlymus. Maent yn dangos parodrwydd i sgwrsio am eu tasgau a’u profiadau dysgu mewn iaith bwrpasol gydag ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa, er enghraifft wrth iddynt drafod yr ardal allanol a’u gwaith coed i greu tŷ ar gyfer y gwenyn. Mae llawer o ddisgyblion yn sgwrsio’n  briodol yn y Saesneg erbyn Blwyddyn 6.

Mae medrau gwrando bron bob un o’r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu’n dda iawn. Maent yn gwrando’n astud ar oedolion ac ar eu cyfoedion ac yn dilyn cyfarwyddiadau’n gywir ac yn hyderus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ar ac ymateb yn barchus i gyfraniadau eu cyfoedion yn ystod gwaith grŵp.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau darllen cynnar yn briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn darllen gyda rhuglder ac yn medru chwilio am wybodaeth o destunau a chrynhoi’r hyn maent yn ei ddarllen.

Ym mlynyddoedd hŷn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen gyda rhuglder cynyddol yn y Gymraeg. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau yn wybodus ac yn defnyddio strategaethau priodol i’w helpu i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae disgyblion uwch eu gallu yn cyfeirio’n wybodus at elfennau nofelau ac mae ganddynt adnabyddiaeth dda o awduron Cymraeg a Saesneg. Maent yn hyderus wrth ymdrin â llyfrau ffuglen ac yn defnyddio llyfrau cyfeirio’n effeithiol i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid yw medrau darllen Saesneg

lleiafrif y disgyblion wedi datblygu'n llawn, yn enwedig eu gallu i ddarllen ar goedd a thrafod testun a llyfrau'n hyderus.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu brawddegau syml yn annibynnol gan roi sylw addas i atalnodi sylfaenol. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth a'u gallu i ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau, er enghraifft drwy ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i fynd ar ymweliad lleol a phortread cyfoethog o aelod o'u teulu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu mewn gwahanol arddulliau ar draws y cwricwlwm gan amlygu dealltwriaeth dda o reolau gramadegol, pwrpas, ffurf a chynulleidfa. Maent yn cynhyrchu darnau diddorol o ysgrifennu estynedig gyda llawer o ddisgyblion yn arddangos dealltwriaeth o bwysigrwydd strwythur. Maent yn amlygu dychymyg a gwreiddioldeb wrth ysgrifennu agoriad stori ddychmygol a geirfa ymestynnol wrth ysgrifennu llythyr ffurfiol at y cyngor lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn dda. O oedran cynnar, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o rifau, maint a siâp. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn adeiladu ar y medrau hyn wrth iddynt ddysgu adio a thynnu rhifau. Datblygant ddealltwriaeth sicr o werth lle mewn rhifau dau ddigid. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdrin â'r system rif yn fedrus ac yn dangos dealltwriaeth o werth rhifau negyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 i 6 yn gweithio'n dda gyda'r pedair rheol rhif ac yn datblygu medrau trin data yn gadarn. Mae llawer yn cymhwyso eu medrau rhif yn fedrus wrth ddatrys problemau. Maent yn hapus i ddysgu o'u camgymeriadau ac i rannu awgrymiadau â'u cyfoedion wrth wirio atebion. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o ddulliau yn gymwys i gyfrifo yn eu pennau ac ar bapur wrth ddatrys problemau. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion sy'n medru disgrifio eu syniadau a'u rhesymu ac egluro sut maent wedi dod i gasgliad.

O oedran cynnar, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau digidol mewn ystod o gyd-destunau creadigol i gefnogi eu dysgu ehangach. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio offer digidol yn hyderus i gofnodi eu dysgu. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau digidol yn dda i gefnogi ymchwil annibynnol ac i ysgrifennu, golygu, ailddrafftio a chyflwyno eu canfyddiadau. Enghraifft o hyn yw ymchwilio i glybiau ysgol posibl gan gyflwyno'r canlyniadau ar ffurf graff mewn rhaglen creu taenlenni. Mae llawer o ddisgyblion yn creu a defnyddio cronfeydd data a thaenlenni yn llwyddiannus gan ddefnyddio fformiwlâu, er enghraifft i ddarganfod cymedr setiau o ddata am Gwpan Pêl-Droed y Byd.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau creadigol, er enghraifft drwy brintio patrymau dail mewn clai. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cerddorol yn effeithiol drwy dderbyn gwersi piano, telyn a chael cyfleoedd i ganu mewn gwasanaethau a'r Eisteddfod leol. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn defnyddio eu creadigrwydd yn llwyddiannus, er enghraifft wrth greu darluniadau o Gromlech y Ffôr.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r berthynas ofalgar sy'n bodoli ymhlith disgyblion a rhwng staff a disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae hyn yn annog y disgyblion i fagu awch a brwdfrydedd at ddysgu yn llwyddiannus.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn derbyn cymorth gofalgar. Maent yn hapus, yn gwrtais tuag at oedolion, ac at ei gilydd. Maent yn trin ei gilydd yn deg a gyda pharch, ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor os oes unrhyw beth yn eu poeni. Maent yn hyderus bod staff yn ymateb ar unwaith i'w pryderon ac yn eu cynorthwyo'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod staff yr ysgol yn gwrando arnynt a bod eu cyfraniad at fywyd ysgol yn cael ei werthfawrogi; er enghraifft, maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r 'gornel ffrind' ar y buarth os oes plentyn angen cwmni cyfaill yn ystod amseroedd egwyl.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn cynnig awgrymiadau pwrpasol am gynnwys trywyddau ymholi wrth gynllunio themâu a gweithgareddau posibl ar gyfer y dosbarth, er enghraifft wrth ystyried agweddau o fywyd ar lan y môr neu astudiaeth hanesyddol o gestyll gogledd Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r agwedd hon mor amlwg yn ystod lleiafrif y gwersi wrth i ddisgyblion gwblhau tasgau.

Mae'r disgyblion yn falch o'r adborth parod a gânt gan staff wrth gwblhau eu tasgau ac maent yn gwerthfawrogi profiad buddiol gwirio gwaith eu hunain. Trwy adnabod eu meini prawf llwyddiant, maent yn dod i adnabod a gwerthuso natur eu hymatebion i'r gwahanol dasgau y maent yn eu cyflawni. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dyfalbarhad wrth ddatblygu i fod yn ddysgwyr cydwybodol sy'n cefnogi ei gilydd yn dda o fewn eu gweithgareddau. Maent yn datblygu medrau meddwl effeithiol ac yn dangos gwydnwch wrth ganolbwyntio'n barhaus ar eu gwaith.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn cymryd eu dyletswyddau o ddifri ac yn cyfrannu'n dda at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, bu iddynt lwyddo i sefydlu siarter ymddygiad amseroedd egwyl ynghyd â chynnal gweithgareddau i gasglu arian at elusennau. Fodd bynnag, nid yw'r aelodau'n  casglu barn eu cyfoedion yn rheolaidd, nac yn adrodd yn ôl iddynt yn dilyn cyfarfodydd o'r cyngor.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Maent yn gwybod am bwysigrwydd diogelu eu gwybodaeth bersonol a rhoi gwybod i oedolyn am bryderon. Mae ymweliadau gan swyddog cymunedol yr heddlu yn atgyfnerthu hyn yn dda.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn siarad yn hyderus ag ymwelwyr ac oedolion eraill, er enghraifft wrth drafod eu gwaith a'u diddordebau. Mae bron bob un disgybl yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn deall rheolau'r ysgol, ac yn gwrando'n ofalus ar eu cyfoedion ac ar oedolion, ac yn dangos diddordeb yn y gwersi, er enghraifft wrth greu e-bost i ddiolch i Dafydd Iwan am ddod i ganu i'r ysgol yn dilyn gemau pêl-droed rhyngwladol Cymru.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac yn deall effaith ymarfer corff ar eu hiechyd. Mae disgyblion yn esbonio pam mae'n fuddiol bwyta diet cytbwys, er enghraifft wrth benderfynu gofyn am amrywiaeth ehangach yn y bwyd iach a gynigir iddynt yn ystod amser egwyl. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gadw'n heini drwy weithgareddau chwaraeon ar ôl ysgol fel y clwb pêl-droed neu drwy gymryd rhan yng ngala nofio'r ardal.

Trwy eu hymwybyddiaeth o degwch a chydraddoldeb, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y maent yn dangos parch tuag at wahanol grefyddau fel Islam tra'n astudio agweddau o fywyd yn Qatar yn ystod Cwpan y Byd yn ddiweddar.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer dysgu sy'n adlewyrchu egwyddorion a diwylliant Cwricwlwm i Gymru. Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu yn hyrwyddo'r weledigaeth yn llwyddiannus ac mae athrawon yn darparu cwricwlwm ysgogol, sydd wedi ei wreiddio yn yr ardal leol ac sy'n datblygu medrau disgyblion yn effeithiol.

Mae gan athrawon ymagwedd fyfyriol a chydweithredol at gynllunio'r cwricwlwm, gan fireinio eu cynlluniau i ystyried y dulliau sydd fwyaf addas ar gyfer eu disgyblion. Maent yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o egwyddorion cynnydd y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o ddilyniant yn nysgu disgyblion ar draws yr ysgol ac i sicrhau bod asesiadau yn gywir ac yn llunio camau datblygu nesaf ar gyfer dysgwyr unigol. Mae ganddynt berthynas weithio gadarnhaol â disgyblion sy'n creu amgylchedd dysgu pwrpasol, tawel a chefnogol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a'u bod yn gallu gofyn cwestiynau os oes angen cymorth â'u dysgu.

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli ymysg staff yr ysgol, sy'n meithrin amgylchedd ddysgu hapus a chynhwysol i ddisgyblion. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda iawn.

Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda iawn gan sicrhau bod bron bob disgybl yn ymgysylltu'n llawn yn y gwersi a'r profiadau dysgu. Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau cyson uchel o ddisgyblion. Mae darparu cyfleoedd i'r disgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu yn datblygu. Er hyn, nid yw'r addysgu'n cynnig digon o gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud dewisiadau'n annibynnol wrth gwblhau tasgau ar draws yr ysgol.

Nodwedd amlwg o waith yr ysgol yw'r modd y mae athrawon ac ymarferwyr yn annog y disgyblion i ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru. Trwy gynllunio themâu cyfoethog am yr ardal leol, mae athrawon yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gadarn y disgyblion o'u cymdogaeth drwy gynnig profiadau byw ac ystyrlon iddynt. Maent yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau diddorol a phrofiadau sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol a'i lle yn y gymuned leol yn llwyddiannus iawn; er enghraifft, trefnir ystod o ymweliadau â mannau diddorol yn lleol a thu hwnt, fel y Gromlech a'r daith i gopa Carnguwch.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu amcanion clir ar ddechrau gwersi a gwneir defnydd cyson o feini prawf llwyddiant. O ganlyniad, mae gan y disgyblion hyder wrth hunanwerthuso eu hymdrechion a'u cynnydd nhw a'u cyfoedion. Mae'r holl staff yn defnyddio technegau holi amrywiol yn effeithiol er mwyn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion.

Mae'r staff yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i'r disgyblion yn ystod gweithgareddau er mwyn cynnal ac ymestyn eu dysgu. Maent yn darparu adborth ysgrifenedig syml ac effeithiol ac mae'r disgyblion yn ymateb iddo'n rheolaidd, sy'n cynnig arweiniad clir

iddynt am y camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymateb yn hyderus am yr hyn sy'n dda yn eu gwaith a'r camau dysgu nesaf.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn drwyadl gan wneud defnydd pwrpasol o asesiadau amrywiol sy'n sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth sydd ei angen i lwyddo. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da bron ymhob agwedd o'u dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae pob aelod o staff yn cynnig gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i'r disgyblion ac mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Maent yn dangos lefel uchel o ofal a pharch at ei gilydd, ac mae hyn wedi llwyddo i greu cymuned ddysgu gynhwysol. Mae gwerthoedd yr ysgol, sy'n cynnwys dangos parch ac ymddiriedaeth, Cymreictod a chydweithio, yn cael eu deall a'u defnyddio yn dda gan y disgyblion. O ganlyniad, maent yn magu agweddau cadarn tuag at ddysgu a'u lles, ac yn dangos ymddygiad hynod o gwrtais.

Caiff syniadau a barn y disgyblion eu parchu ar draws yr ysgol, er enghraifft drwy roi cyfleoedd iddynt wneud penderfyniadau sy'n cryfhau eu rôl o fewn cymdeithas, fel cefnogi'r banc bwyd lleol.

Un o gryfderau hynod effeithiol yr ysgol yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY. Caiff y disgyblion dargedau mesuradwy a chyraeddadwy sy'n amlinellu'n glir eu hanghenion addysgol, emosiynol neu gymdeithasol, yn ôl yr angen. Mae gan bob un o'r disgyblion broffil unigol manwl sy'n cynnig gwybodaeth bwysig am eu diddordebau a sut i ofalu am eu lles. Maent hefyd yn cynnwys amlinelliad clir o strategaethau a chefnogaeth benodol sy'n llwyddo i sicrhau bod y disgyblion yn cyrraedd eu targedau. Defnyddir y wybodaeth am y disgyblion yn effeithiol er mwyn diwallu eu hanghenion yn ogystal â gwneud defnydd buddiol o gyfraniadau asiantaethau arbenigol, yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae gan yr athrawon adnabyddiaeth well o'r strategaethau sy'n effeithiol i ddiwallu anghenion y disgyblion, er enghraifft y disgyblion hynny sydd ag arwyddion o ddyslecsia. Caiff disgyblion eraill gefnogaeth benodol ofalus sy'n cyfeirio at wella tangyflawniad dros dro mewn llythrennedd a rhifedd.

Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn olrhain cynnydd y disgyblion ac mae bron bob disgybl sydd ag ADY yn gwneud cynnydd da dros amser yn erbyn eu targedau a'u cyraeddiadau blaenorol. Agwedd nodedig yw'r ddarpariaeth i gefnogi iechyd meddwl a lles disgyblion penodol; er enghraifft, mae aelod o staff wedi cael ei hyfforddi i gynorthwyo disgyblion ar agweddau o'u lles emosiynol. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn ymdopi â'u hagweddau lles yn well yn dilyn cyfleoedd i drafod gofidiau personol, pan fo angen.

Caiff medrau cymdeithasol, moesol ac ysbrydol y disgyblion eu datblygu'n effeithiol yn ystod sesiynau addoli ar y cyd a gwersi dosbarth. Cynhelir gwasanaeth addoli rheolaidd sy'n cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar agweddau crefyddol ac ysbrydol, er enghraifft fel bod yn garedig at eraill a deall pwysigrwydd bod yn ffrind da.

Mae athrawon yn hybu datblygiad diwylliannol a chreadigol disgyblion drwy ystod o weithgareddau diddorol, er enghraifft drwy hybu dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion am ddiwylliant a hanes eu cynefin trwy fynd ar daith i olrhain chwedlau Pen Llŷn. Maent hefyd yn cael cyfleoedd i greu cyfres o luniau deniadol sy'n efelychu gwaith arlunwyr o Gymru, a chynnig cyfleoedd i'r disgyblion gystadlu yn eisteddfod Y Ffôr. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ddinasyddion gweithgar sy'n adnabod a pharchu eu cynefin yn dda.

Mae gwersi addysg gorfforol a'r cyfleoedd chwaraeon allgyrsiol fel pêl-droed yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fagu agweddau cadarnhaol tuag at gadw'n iach a heini.

Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion yn effeithiol. Mae'r gweithdrefnau a ddefnyddir i herio presenoldeb isel yn gynhwysfawr ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb.

Mae'r diwylliant diogelu yn flaenoriaeth i bawb ar draws yr ysgol ac mae'r staff yn sicrhau bod pob disgybl yn ymwybodol o sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth a'r holl staff yn cydweithio'n hynod effeithiol i greu amgylchedd dysgu Cymreig, gofalgar a chartrefol i'r disgyblion. Mae arweiniad doeth ac ymroddgar y pennaeth yn sicrhau cyfeiriad strategol clir a phwrpasol sy'n ennyn brwdfrydedd yr holl staff i wneud eu gorau dros yr ysgol a'i chymuned.

Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, y staff a'r disgyblion ac yn hyrwyddo gwaith tîm effeithiol rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion. Mae gweledigaeth gytûn yr ysgol wedi ei seilio'n gadarn ar ddatblygu lles, dygnwch disgyblion a chynnal pherthnasoedd iach a hapus. O ganlyniad, mae bron bob un o'r disgyblion yn arddangos agweddau cryf iawn tuag eu dysgu ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod, eu hysgol a'r ardal leol.

Mae pob aelod o staff yn deall eu cyfrifoldebau'n dda ac yn ymgymryd â chyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth yn llwyddiannus. Mae trefniadau rheoli perfformiad staff yn gadarn ac yn cyfrannu'n werthfawr iawn at eu datblygiad. Mae ystod dda o brofiadau buddiol i unigolion ddatblygu'n broffesiynol ac i arwain ar agweddau penodol o waith o fewn yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio sy'n digwydd ar draws rhwydwaith o ysgolion lleol i gynllunio a diwygio arferion dysgu sylfaen. Mae hyn yn galluogi'r staff i wella'u dealltwriaeth o egwyddorion a darpariaeth gyfredol sy'n cael effaith ar les a chynnydd disgyblion. Mae'r cymorthyddion yn aelodau allweddol o dîm yr ysgol sy'n cyfrannu'n gyson at wella safonau dysgu, lles a medrau cymdeithasol y disgyblion. Mae gan bob un o'r athrawon gyfrifoldeb am faes dysgu a phrofiad y Cwricwlwm i Gymru. Mae eu harbenigedd yn y meysydd hyn yn dylanwadu ar brofiadau gwerthfawr y disgyblion yn y dosbarthiadau.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn drwyadl. Yn dilyn sefydlu amserlen ystod o weithgareddau monitro, mae'r pennaeth a'r athrawon yn

craffu ar lyfrau disgyblion, yn cynnal teithiau dysgu ac yn casglu barn rhieni a rhanddeiliaid. Mae hyn wedi galluogi arweinwyr i adnabod cryfderau ynghyd â'r agweddau ar gyfer gwelliant yn gywir; er enghraifft, maent wedi cynllunio'n llwyddiannus i wella medrau darllen Cymraeg disgyblion.

Defnyddir y wybodaeth o'r trefniadau monitro yn llwyddiannus i osod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant, er enghraifft datblygu medrau digidol disgyblion ar draws yr ysgol. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd i drefnu a gweithredu gweithgareddau er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau'n gytûn. Mae penderfyniadau gwariant a chynllunio ariannol yn cysylltu'n briodol â'r blaenoriaethau gwella, gan gynnwys defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth a'r staff yn dda iawn. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu ac maent yn darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her. Mae aelodau'r corff yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol a thrafod gwaith yr ysgol. Yn ogystal, maent yn derbyn gwybodaeth, adroddiadau a chyflwyniadau defnyddiol gan y pennaeth ac athrawon eraill. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn sicrhau cyflenwad da iawn o adnoddau sy'n cefnogi'r dysgu'n fwriadus. Maent yn gwneud y defnydd gorau o'r adeilad a'r adnoddau sydd ar gael; er enghraifft, maent yn gwneud defnydd pwrpasol o'r neuadd cymunedol a'r cae chwarae sydd ar dir yr ysgol ar gyfer gweithgareddau fel gwersi addysg gorfforol a chyngherddau. Maent yn rheoli'r cyllid yn effeithiol gan wneud defnydd pwrpasol o'r grantiau ychwanegol, er enghraifft trwy gyflogi cymorthyddion i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion gyda'u medrau iaith a diweddaru adnoddau yn yr ardal allanol. Mae hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu medrau a lles disgyblion.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth y staff a'r llywodraethwyr, yn hyrwyddo diwylliant diogelu mewn ffordd hynod effeithiol a chefnogol. O ganlyniad, mae disgyblion Ysgol Bro Plenydd yn hapus a diogel yn yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2023